



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2016-2017

Mawrth 2016

Crynodeb o'r Prif Sylwadau

DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau a dehongliadau'r ymatebwyr fel y'u rhoddwyd yn eu hymatebion.

Cyngor Sir Fynwy - Gostyngiad o -3.1% yn y Setliad Dros Dro

Setliad - mae cyhoeddiad y Setliad Dros Dro yn peri pryder ac mae disgwyl amseroedd anodd yn y dyfodol, yn enwedig i Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o bwysau ar gyllidebau teuluol ac mae'n gwneud ei orau glas i sicrhau cyllidebau cytbwys, ond bydd pwysau anochel ar godi Treth Gyngor.

Cyllido gwaelodol - wrth gymharu 'tebyg am debyg' mae eu gostyngiad yn 3.1% ac nid oes gwaelod. Nid yw sefyllfa'r Cyngor, fel y cyngor sy'n cael ei gyllido waethaf yng Nghymru y pen am y boblogaeth, wedi helpu. Bydd hyn yn golygu y bydd gwasanaethau allweddol yn wynebu pwysau eithafol yn 2017-18.

Grant Sefydlogi Gwledig - mae Sir Fynwy'n cefnogi'r cynnig grant a gyflwynwyd gan CLILC gan fod tystiolaeth bod llawer o faterion gwledig yn cael eu tanchwarae yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Mae'r effeithiau hyn ar y fformiwla a'r diffyg dangosyddion i adnabod problemau gwledig yn gadael yr awdurdodau yma gyda gostyngiadau mwy na'r cyfartaledd. Mae'r gostyngiad ar gyfartaledd o 1.4% gydag ystod o 4% yn ormodol felly gallai cyflwyno'r Grant hwn ar gyfer y 4 awdurdod gwledig gyfyngu ar y gostyngiad i lefel y gellir ei rheoli'n well heb effeithio ar setliad Awdurdodau eraill.

Addysg a Gofal Cymdeithasol - maent yn nodi bod y cyllidebau hyn yn flaenoriaeth ond mae angen gwahaniaethu rhwng gwarchod gwasanaethau a gwarchod cyllidebau. Rhaid adolygu'r holl feysydd gwasanaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan alluogi rheoli'r cyllidebau hyn ond eto rhoi canlyniadau blaenoriaeth ar waith. Byddent yn croesawu'r hyblygrwydd gorau posib i reoli eu cyllidebau.

Grantiau Penodol - mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn annog trosglwyddo grantiau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw ac mae'n siomedig gyda'r diffyg cynnydd presennol. Byddai'n croesawu mwy o grantiau'n cael eu trosglwyddo i ddarparu'r gweddillion dosbarthu ar yr un sail â'r grant gwreiddiol gan osgoi newidiadau mawr mewn cam hwyr yn y broses.

Cyfalaf - mae Sir Fynwy'n teimlo nad yw'r gostyngiadau blaenorol yn y cyllid cyfalaf yn cael sylw. Mae hwn yn bryder difrifol gan fod Cynghorau'n cael anhawster codi derbyniadau cyfalaf o werthiant asedau. Mae'r angen am fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth, er enghraifft Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif a seilwaith, yn parhau'n flaenoriaeth uchel ac mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru'n parhau'n ffactor llwyddiant allweddol.

Sylw cyffredinol - mae'r Cyngor yn ei chael yn anodd cysoni setliadau cyfalaf a refeniw gyda disgwyliadau a galw cynyddol mewn perthynas â gwasanaethau lleol. Mae'n wynebu penderfyniadau anodd o ran cysoni ei gyllidebau ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod hyn a chefnogi'r holl awdurdodau heb hybu disgwyliadau polisi na ellir eu cyflawni. Dywed Sir Fynwy ei bod yn amser i bawb gydweithio er mwyn lleihau effaith y dirywiad mewn cyllid cyhoeddus ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a'r cyhoedd mae'r Cynghorau a Llywodraeth Cymru'n bodoli i'w wasanaethu.

Cyngor Sir Powys - Gostyngiad o 4.1% yn y Setliad Dros Dro

Cyllid Allanol Cyfun - mae Powys yn eithriadol siomedig gyda'r gostyngiad o 4.1% yn y Cyllid Allanol Cyfun ac mae'n nodi mai dyma'r isaf ledled Cymru unwaith eto. Mae hyd yn oed yn fwy annerbyniol wrth gymharu â'r cyfartaledd o 1.4% o ostyngiad ledled Cymru. Yn ystod y 9 mlynedd diwethaf, Powys sydd wedi derbyn y cynnydd lleiaf mewn cyllid, sef 0.5% mewn termau ariannol, sy'n cynrychioli gostyngiad o 20% mewn termau real. Y ffigur ar gyfartaledd ar gyfer Cymru yw cynnydd o 9.8%, gyda'r ganran fwyaf yn 18.9%, ac mae'n dweud mai ef fel Cyngor sy'n wynebu'r her ariannol fwyaf o ddigon yng Nghymru y degawd hwn.

Mae ymrwymiad Powys i warchod rhai gwasanaethau a gefnogir gan gyllid ychwanegol wedi rhoi pwysau pellach ar ei adnoddau ac mae'n cyfyngu'r gostyngiad a orfodir gan yr awdurdod - mae'n nodi bod gan awdurdodau eraill sydd wedi rhagweld gostyngiadau mwy arian wrth gefn o bosib er mwyn bodloni eu hymrwymiaidau.

Cyllido gwaelodol - mae Powys yn teimlo bod y ddarpariaeth waelodol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cydnabod bod fformiwla'r setliad yn ddiffygiol ac er nad yw'n gweithio i awdurdodau eraill, mae wedi bod yn elfen hanfodol i Bowys. Mae'n nodi nad yw'n ddatrysiad parhaol priodol ond mae wedi helpu gyda lliniaru effaith fformiwla nad yw'n rhoi ystyriaeth lawn i gost darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Cydnabyddir hyn yng nghynnig y 'Grant Sefydlogi Gwledig' y maent yn ei gefnogi'n llawn a'i groesawu fel canlyniad ffafriol sy'n rhoi sylw i'r broblem yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae datblygu fformiwla wedi tynnu sylw at gost amser teithio wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill mewn awdurdodau gwledig felly, i Bowys, byddai'r newid arfaethedig yn costio £2.994m ychwanegol.

Grantiau Penodol - mae'n croesawu trosglwyddo grantiau i'r setliad ac yn tynnu sylw at yr angen am i hynny barhau, gan arwain at leihau'r baich gweinyddol a'r ffi archwilio.

Cyllid yn y dyfodol - mae Powys yn teimlo nad yw darpariaeth gyllido am flwyddyn yn rhoi digon o eglurder i Awdurdodau er mwyn iddynt gynllunio eu rheolaeth ariannol yn effeithiol yn y tymor canolig. Byddai cadarnhau'r cyllid y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf yn lleihau'r ansicrwydd ac yn gwella'r cynllunio ariannol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Gostyngiad o -1.3% yn y Setliad Dros Dro

Setliad - mae Wrecsam yn siomedig bod Llywodraeth Cymru, wrth bennu'r cyllidebau, wedi gwneud gostyngiadau i'r elfen Llywodraeth Leol (-1.97% o gymharu â 2015-16), gan arwain at effaith anghyfartal y Setliad ar wasanaethau lleol.

Gwarchod Ysgolion - dylid adolygu parhau i warchod ysgolion gan ei fod yn cael effaith ar wasanaethau eraill.

Gwasanaethau Cymdeithasol - er gwaethaf cynnwys £21m ychwanegol yn y Setliad nid yw'n cydnabod y galw cynyddol a'r cymhlethdod cynyddol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant.

Grantiau Penodol - dywed yr Awdurdod ei bod yn hanfodol i fwy o wybodaeth am grantiau gael ei rhoi yn y cam Setliad Dros Dro er mwyn galluogi cynllunio gwasanaethau'n integredig. Mae'n siomedig nad yw'r Grant Amgylchedd Sengl wedi cael ei drosglwyddo i

mewn ac mae'n mynegi pryder am y gostyngiad arfaethedig o 6.3% yn y grant hwn sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

Treth Gyngor - mae'r Cyngor yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau digonol i alluogi i'r Dreth Gyngor gael ei chadw'n rhesymol isel. Dylid darparu adnoddau digonol fel bod y dull o weithredu'n nes at yr hyn a welir yn Lloegr. Mae hyn yn hynod bwysig i Awdurdodau sydd ar y ffin â Lloegr oherwydd nid yw'r cyhoedd yn gallu deall pam nad yw'r cymhelliant i gadw treth gyngor yn isel yn Lloegr yn cael ei drosglwyddo i Awdurdodau Lleol Cymru hefyd.

Cyfrifoldebau newydd - mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyllido'n llawn yn y Setliad. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth gadarn ar sail unrhyw gyllid newydd sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth.

Setliad Cyfalaf - mae'n nodi bod y Grant Cyfalaf Cyffredinol yn parhau ar lefel isel a'i bod yn siomedig nad oes unrhyw wybodaeth benodol am grantiau Cyfalaf ar gael o ystyried y prosiectau seilwaith sydd wedi'u cynllunio.

Cynllun Gostyngiad Treth Gyngor - mae Wreccsam yn croesawu cefnogaeth ariannol barhaus ond mae'n credu y dylai adnodd 2016-17 gael ei gynyddu yn hytrach na pharhau ar yr un lefel â phan gafodd ei gyflwyno yn 2013-14.

Blaengynllunio - mae Awdurdodau Lloegr wedi cael cyfle i dderbyn setliad cyllido pedair blynedd hyd at 2019-20 a bydd hynny'n rhoi sicrwydd cyllido a sefydlogrwydd gan arwain at gynllunio mwy rhagweithiol ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Wreccsam o'r farn bod rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried darparu'r setliad yn gynharach a chynnig cyfle i unrhyw Gyngor sy'n dymuno gymryd cyllid am fwy nag un flwyddyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Gostyngiad o -1.7% yn y Setliad Dros Dro

Setliad - roedd y Cyngor yn disgwyl, ac felly'n cynllunio ar gyfer, setliad llawer gwaeth nag a dderbyniodd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n nodi ei fod dal yn ostyngiad mewn termau real ac yn ariannol, sy'n arwain at orfod gwneud dewisiadau anodd. Croesewir cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol, gan ei fod yn cydnabod rôl gofal cymdeithasol mewn lleddfu'r pwysau sydd ar y GIG. Mae'r ddau faes yma'n nodweddion amlwg iawn yng nghyllideb a chynllun corfforaethol Torfaen ond mae gwarchod y gwasanaethau hyn yn her ar gyfer y dewisiadau mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae Torfaen yn parhau o'r farn bod clustnodi unrhyw gyllideb yn gallu llesteirio arloesi a diwygio.

Fformiwla gyllido - mae'r gostyngiadau ledled yr Awdurdodau'n arwyddocaol, yn amrywio o -0.1% i -4%. Mae hyn yn effeithio ar ddewisiadau'r Cyngor wrth reswm, gan ei gwneud yn anos esbonio ei gynlluniau cyllideb i'r cyhoedd. Maent yn credu bod angen adolygu'r fformiwla gyllido.

Grantiau penodol - mae Torfaen wedi croesawu cynnwys y Cytundeb Canlyniad yn y setliad ac mae'n gobeithio y bydd grantiau pellach yn cael eu cynnwys yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'n credu y byddai'n rhyddhau'r arian o fiwrocratiaeth ac yn cynyddu hyblygrwydd. Mae'r Cyngor o blaid grantiau heb eu clustnodi ac oherwydd bod y setliad terfynol mor hwyr eleni, mae'n dweud bod esboniad cynnar yn hanfodol, ac yn ddelfrydol, cyn diwedd mis Ionawr.

Mae'n cydnabod bod gwybodaeth fwy cyffredinol am grantiau wedi cael ei darparu ar lefel Cymru gyfan ond mae'n siomedig gyda'r diffyg dyraniadau unigol i awdurdodau o hyd. Eto, mae gwybodaeth fanwl, gynnar a llawn am y grant yn hanfodol oherwydd mae llawer ohono'n sail i wasanaethau craidd a chyflogaeth.

Cynllunio ariannol - mae'n siomedig mai dim ond i un flwyddyn ariannol mae'r Setliad yn rhoi sylw, gan fod hyn yn atal cynllunio ariannol da. Dywed Torfaen nad yw'r ffaith bod yr adolygiad gwariant yn hwyr yn rheswm dilys dros ddiffyg dyraniadau amcanol, oherwydd mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynllunio'n ariannol dros nifer o flynyddoedd. Yn y dyfodol, mae'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n dychwelyd at setliad ar ffurf dyraniadau amcanol.

Treth Gyngor - mae Torfaen yn falch bod cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor yn parhau'n fater i ddewis polisi lleol ond mae'n disgwyl i lefel y Dreth Gyngor godi.

Sylw cyffredinol - maent yn ailadrodd ei bod yn parhau'n bwysicach nag erioed i Lywodraeth Cymru a phob rhan o'r sector cyhoeddus weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn gweithio mewn partneriaeth ac mae'r setliad gwell na'r disgwyl yn dangos symudiad mwy cadarnhaol.

Cyngor Sir y Fflint - Gostyngiad o -1.5 % yn y Setliad Dros Dro

Yn gyffredinol - mae'r Cyngor yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru i rywfaint o warchodaeth gyllido a adlewyrchir yn y gostyngiadau Grant Cynnal Refeniw tra bo heriau ariannol y prif gynghorau'n dal i gael sylw. Mae Sir y Fflint eisiau sicrwydd bod y cyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol penodol yn cael ei fodloni y tu allan i'r Setliad heb unrhyw effaith ar lefel y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer Cynghorau eraill.

Grantiau - mae'n gofyn am ostwng lefel y gostyngiadau cyllid a gynigir yn y Grant Amgylchedd Sengl oherwydd ei effaith debygol ar wasanaethau cyhoeddus statudol allweddol. Mae'r gostyngiad arfaethedig wedi achosi pwysau cost newydd ar gyfer 2016-17 a bydd rhaid bodloni hwn o ffynonellau eraill ar draul gwasanaethau allweddol eraill.

Mae Sir y Fflint yn parhau'n bryderus am ostyngiadau pellach mewn grantiau penodol heb eu cyhoeddi ac mae eisiau sicrwydd y bydd gwneud gostyngiadau grant penodol pellach yn ystod y flwyddyn yn dod i ben.

Mae Sir y Fflint yn gofyn am i'r cyllid ychwanegol ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sydd newydd ei gyhoeddi fod yr un mor hygyrch ar gyfer gofynion gofal cymdeithasol presennol â'r rhai newydd.

Setliadau'r dyfodol - dywed y Cyngor bod nifer fawr yn gytûn bod angen diwygio system gyllid y Setliad a'i fod yn aros am argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar gyfer Llywodraeth Leol a'r 'Grŵp Rhagolwg Cyllid y Dyfodol Gweinidogol'. Mae'n allweddol peidio â cholli'r angen am sicrwydd o ran cynllunio ariannol a diwygio llai heriol.

Gofal Cymdeithasol - mae'n dymuno gweld dileu capio gofal cymdeithasol a ffioedd. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau i wneud penderfyniadau lleol am ffioedd gwasanaethau ble mae adfer costau'n ystyriaeth allweddol er mwyn cynnal gwasanaethau.

Cynllun Gostwng Treth Gyngor - mae'n gofyn am adolygu hwn ar gyfer 2017-18 a chyllido'r cynllun yn llawn fel cynllun lles cenedlaethol.

Cyllid Allanol Cyfun - mae'n gofyn i unrhyw ostyngiad mewn Cyllid Allanol Cyfun o 2017-18 ymlaen gael ei gynnal ar lefel 2016-17 (fel isafswm) ond ar lefel is os yn bosib.

Cyllid - mae'r Cyngor yn gofyn i'r Llywodraeth a ddaw i rym yng Nghymru wneud diwygio cyllid llywodraeth leol yn y tymor byr a chanolig yn ymrwymiad blaenoriaeth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Gostyngiad yn y Setliad Dros Dro o -1.5 %

Yn gyffredinol - roedd y Cyngor yn falch o weld bod y gostyngiad yn y setliad cyffredinol yn is na'r disgwyl yn achos Blaenau Gwent. Mae'n nodi bod y rheolaeth ar yr amserlen ar gyfer pennu cyllidebau 2016-17 a'r Setliad Dros Dro wedi bod yn heriol ond y bydd yn mynd yn ôl i'r amserlen arferol ar gyfer 2017-18. Mae'n canmol cynnwys data sylfaen dreth 2016-17 i leihau unrhyw anghydfod rhwng y Setliad Dros Dro a'r Setliad Terfynol. Dywed Blaenau Gwent bod peidio â phennu mecanwaith gwaelodol ar gyfer y Setliad Dros Dro'n awgrymu'r un peth ar gyfer y Setliad Terfynol.

Grantiau Penodol - mae Blaenau Gwent yn pryderu am ostyngiadau grant disgwylledig/arfaethedig nad ydynt yn dod i rym mewn gwirionedd. Efallai y bydd rhai grantiau nad yw'n ymwybodol ohonynt yn cael eu gostwng, neu rai nad yw wedi cynllunio ar eu cyfer neu rai annisgwyl. Gan fod hyn yn gwneud cynllunio gwasanaethau'n anodd, awgrymir adolygu'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.

Trosglwyddo grantiau - mae'r Cyngor yn nodi'r ystyriaeth i hyblygrwydd cyllido pellach a throsglwyddo o bosib i'r setliad y Grant Gwella Addysg, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Gofal Cymdeithasol - mae hefyd yn nodi bod cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y Setliad. Fodd bynnag mae'n ansicr os mai'r canlyniad bwriadol yw darparu cefnogaeth gyffredinol neu benodol i'r pwysau cost newydd o gyflwyno'r cyflog byw gorfodol. Mae'n teimlo mai dim ond 40% o'r pwysau cost hwn fyddai'r cyllid ychwanegol yn ei gyllido, a bydd hynny'n codi wrth i'r cyflog byw gynyddu.

Cyllid yn y dyfodol - dywed Blaenau Gwent nad oes unrhyw ostyngiadau cyllido dangosol yn y dyfodol yn y Setliad. Mae'n gobeithio y bydd pawb yn gallu cydweithio i sicrhau cynllunio ystyrion yn y tymor canolig.

Cyngor Sir Penfro - Gostyngiad o -2.8 % yn y Setliad Dros Dro

Cyllid Allanol Cyfun - roedd Sir Penfro'n falch bod y gostyngiad yn ei Gyllid Allanol Cyfun yn llai na'r disgwyl, yn enwedig gyda'r pwysau demograffig cynyddol o ran Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Fodd bynnag, dywed nad yw'r gostyngiad yn ystyried y baich ariannol ychwanegol a orfodir ar y Cyngor yn 2016-16, felly mae'r gwir ostyngiad yn llawer uwch. Dyma'r drydedd flwyddyn o ostyngiadau arwyddocaol mewn Cyllid Allanol Cyfun heb ddisgwyl unrhyw welliant yn y dyfodol rhagweladwy. Bydd hyn yn arwain at ostyngiadau mewn lefelau gwasanaeth ac ansawdd ac, yn yr achosion gwaethaf, dod â gwasanaethau i ben.

Grantiau - mae'n ymddangos bod awdurdodau gwledig yn cael y setliadau ariannol gwaethaf unwaith eto. Mae Sir Benfro yn safle 19 o ran y Setliad ac nid yw hyn yn cydnabod y pwysau ychwanegol sydd ar awdurdodau gwledig. Mae'r Cyngor yn annog

Llywodraeth Cymru i ddatgan mecanwaith i roi sylw i hyn ac mae'n gobeithio y bydd y Grant Sefydlogi Gwledig, a fyddai o fudd i Gyngor Sir Penfro, yn amlwg yn y Setliad.

Cynllunio yn y Dyfodol - gan nad oes unrhyw ffigurau amcanol ar gyfer y dyfodol yn cael eu cynnwys yn y Setliad, mae'r Cyngor yn nodi ei bod yn amhosib bron datblygu Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig gydag unrhyw gywirdeb. Felly mae'n anos cau'r bwlch cyllido gyda gostyngiadau costau cynllunio ac arbedion yn cymryd mwy o amser. Bydd yn seilio ei Gynllun ar ostyngiad blynyddol o 4.5% yn y Cyllid Allanol Cyfun, yn unol â dyraniadau amcanol Llywodraeth Cymru. Mae'n annog y Llywodraeth i ddarparu dyraniadau setliad amcanol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn y Setliad Terfynol.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyffredinol - dywed CLILC bod Llywodraeth Leol yng Nghymru'n bartner hanfodol i Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni canlyniadau cymdeithasol ac economaidd eang, gyda Chynghorau'n gwneud cyfraniad cwbl allweddol at bob maes. Y gwasanaethau lleol maent yn eu darparu yw'r sylfaen gadarn ar gyfer cymunedau diogelach a mwy cydlynol a chyfartal ac maent yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy at yr amgylchedd ac at gymdeithas. Dylid ystyried datganoli pwerau i Gynghorau, gan gynnwys cadw twf cyfraddau busnes. Maent yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru a'r Setliad gydnabod bod rhaid i Gyngor sy'n gwneud toriadau gynyddu ei arian wrth gefn er mwyn adlewyrchu elfennau annisgwyl ei gyllideb.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol - mae'n croesawu cydnabod yn y Setliad Dros Dro yr angen am fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol allweddol sy'n dangos arafu clir o ran torri cyllidebau awdurdodau lleol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Er eu bod yn dal i wynebu gostyngiad cyffredinol o -1.4%, mae'n llai difrifol na'r blynyddoedd blaenorol a bydd yn galluogi Cynghorau i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau lleol fel addysg a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn gyfrwng i wella lles yn y dyfodol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a gwarchod gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau cyn lleied ag y bo modd o fiwrocratiaeth o ran cael mynediad at gyllid ychwanegol ar y cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynghorau sydd wedi ysgwyddo prif faich y cyni ac maent wedi chwarae rhan mewn creu arbedion. Ers 2009-10, maent wedi sicrhau oddeutu £720m o arbedion, yn bennaf drwy gyfyngiadau cyflog a lleihau nifer eu swyddi. Mae oddeutu 15,000 o swyddi wedi'u colli ers 2009-10 ac mae hyn yn debygol o barhau ar yr un raddfa am y 4 blynedd nesaf. Felly mae gweithlu llywodraeth leol wedi gostwng 20% dros gyfnod o ddegawd.

Gellir adnabod llawer o'r mentrau ar gyfer rhoi sylw i'r diffygion yng nghyllidebau awdurdodau lleol oddi wrth eu cynlluniau ariannol tymor canolig, ac mae adroddiad diweddar gan KPMG ar wasanaethau cefnogi corfforaethol wedi datgan £33m o arbedion yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, nodwyd hefyd bod dangosyddion perfformiad gwasanaethau wedi gwella, gan gynnwys y bwlch rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf.

Mae prif bryder CLILC am y Setliad Dros Dro'n ymwneud ag amrywiaeth y setliadau yn y 22 awdurdod o ganlyniad i ddileu'r warchodaeth waelodol. Mae'n pryderu'n bennaf am y rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf, gyda phoblogaethau'n gostwng a lle mae'r gostyngiadau yn y setliad yn fwy na -3%, e.e. Cyngor Sir Powys (-4%). Mae CLILC yn cytuno gydag aelodau annibynnol yr Is Grŵp Dosbarthu bod angen adolygiad sylfaenol o'r fformiwla ddosbarthu.

Mae'n credu y dylid trosglwyddo pob grant penodol i'r Grant Cynnal Refeniw ac mae'n falch o weld cynnwys y Cytundeb Canlyniad yn y Setliad. Mae'r ymrwymiad i'r adolygiad pellach o grantiau penodol yn galonogol, fodd bynnag mae llawer i'w wneud eto yn y maes hwn. Gall grantiau fod yn ffrydiau cyllido risg uchel a all wynebu gostyngiadau uwch na'r cyfartaledd, yn ystod y flwyddyn weithiau, ac ar ffurf hysbysiadau hwyr.

Mae CLILC yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu gostyngiadau mewn termau real yn ei chyllideb. Nid dim ond ceisio gwell cyllid y mae; yn hytrach, mae eisiau sefydlu perthynas newydd gyda Llywodraeth Cymru fel bod gwybodaeth fanwl gywir a thryloyw'n cael ei hadrodd yn ôl, gyda chymaint o hyblygrwydd â phosib.

Gallai mwy o ffocws ar y tymor hir gymell Llywodraeth Cymru i ddarparu arwydd clir o'r setliadau yn y dyfodol. Yn fwy nag erioed, mae Cynghorau angen setliadau aml-flwyddyn clir fel bod modd cynllunio cyllid a darparu gwasanaethau lleol ymlaen llaw.

Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)

Sylw cyffredinol - mae SoLACE yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod Llywodraeth Cymru wedi gwarchod rhywfaint o gyllid, ym maes addysg a gofal cymdeithasol yn benodol, sydd wedi'i adlewyrchu yn y gostyngiadau is yn y Grant Cynnal Refeniw. Mae hefyd yn croesawu'r warchodaeth gymharol i rai grantiau penodol ond yn herio'r lefel anghyfartal o warchodaeth i gyllid yn y Grant Amgylchedd Sengl. Bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus statudol allweddol ac felly ni fydd y targedau perfformio sydd wedi'u pennu'n genedlaethol yn cael eu cyrraedd. Mae angen gweithredu ar frys ynghylch yr adolygiad parhaus o grantiau penodol gan fod angen diwygio ar raddfa fawr.

Mae SoLACE yn siomedig na chafodd y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar lefel ariannol lawn fel y cytunwyd yn wreiddiol. Mae'n parhau'n bryderus am ostyngiadau uwch na'r cyfartaledd mewn grantiau penodol heb eu cyhoeddi eto ac mae eisiau sicrhwydd y bydd gostyngiadau pellach mewn grantiau penodol yn ystod y flwyddyn yn dod i ben. Bydd unrhyw ostyngiadau tymor byr yn cael effaith ar gysondeb a chynllunio gwasanaethau.

Hyblygrwydd Cyllido - mae'n gofyn am fwy o ryddid a hyblygrwydd i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i wneud eu penderfyniadau cyllido lleol eu hunain.

Cyllid Allanol Cyfun - mae SoLACE yn gofyn am gadw'r gostyngiadau yn y cyllid hwn ar gyfer 2017-18 ac ymlaen ar lefelau is na Setliad Dros Dro 2016-17 er mwyn i Lywodraeth Leol fod yn gynaliadwy.

Setliadau yn y Dyfodol - mae'n nodi bod cydnabyddiaeth ar y cyd gan lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru bod angen diwygio'r system gyllido. Mae SoLACE yn aros am ganlyniad argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar gyfer Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'n annog y Llywodraeth a ddaw i rym yng Nghymru i wneud diwygio cyllid llywodraeth leol yn y tymor byr a chanolig yn ymrwymiad blaenoriaeth.